## Bodlonrwydd yng Nghrist ac yn Addoliad ei Eglwys

Mae'r Oen fu ar Galfaria
    Wrth fy modd,
Efengyl a'i thrysorau
    Wrth fy modd;
Mae llwybrau ei orchmynion
A grym ei addewidion
A hyfryd wleddoedd Seion
    Wrth fy modd;
A chwmni'r pererinion
    Wrth fy modd.

Daeth Eden gynt a Seina,
    Un prynhawn,
I fynydd pen Calfaria
    Un prynhawn;
Roedd yno ŵr yn talu,
Nes rhoddi'r llyfrau i fyny,
Yr iawn a gafwyd inni
    Un prynhawn;
A gweiddi 'Llwyr foddloni'
    Un prynhawn.

***Gwyndaf Ieuanc***